

ATGOFION O'R BORTH

Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy

Menai Bridge and District Civic Society

MEMORIES OF MENAI BRIDGE

Mae Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy yn diweddar ei chofnodion, ffotograffau a'i Gwefan er mwyn ei gwneud yn haws i'r aelodau eu gweld. Byddwn yn ceisio ychwanegu at y rhain yn gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn cyhoeddi pigion gyda'ch Cylchlythyr. Mae croeso mawr bob amser i gyfraniadau newydd, yn ogystal â help i adnabod pobl yn y lluniau.

Ewch i'n Gwefan yn www.menaibridgecivicsociety.org.uk

Menai Bridge Civic Society is updating its records, photographs and Website to make them more accessible to members. We will try to add to these regularly throughout the year and publish extracts with your Newsletter. New contributions are always welcome, as is help with identifying people in photographs.


See our Website at www.menaibridgecivicsociety.org.uk

Memories of Menai Bridge

Volume 15

HELEN ROWLANDS (Helen o Fôn) 1891 - 1955

Mae'r rhifynnau blaenorol o'r 'Atgofion' wedi cofnodi atgofion personol am Borthaethwy. Y tro hwn rydym yn rhoi sylw i unigolyn o Borthaethwy, ond gyda phobl eraill yn hel atgofion am yr hyn a gyflawnodd. Cafodd Fairview



Llun o'r Goflech yn Capel Mawr lle'r oedd yn aelod. Gyda chaniatâd caredig Capel Mawr.

Terrace, lle ganwyd Helen, yr enw ychwanegol Bro Helen Rowlands, er anrhydedd iddi, yn yr 1970au. Mae gan wefan *History Point* ychydig o wybodaeth amdani, ond heb ddigon o le i adrodd y cyfan. Ceir llawer mwy o wybodaeth ar wefan y Bywgraffiadur Cymreig gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd hi'n ysgolhaig eithriadol, yn ieithydd a gweinyddwr ond yn anad dim, yn genhades. Y dyddiau hyn, mae'n bosibl ein bod yn swil i sôn am waith cenhadon. Ai cywilydd ydyw, yn meddwl eu bod yn rhy gefnogol i'r Raj yn yr India, ai oherwydd nad ydym yn gymdeithas grefyddol mwyach? Ni ellir deall gwaith ac ymroddiad y cenhadon Methodistaidd Cymreig heb amgyffred angerdd y diwygiadau crefyddol yng Nghymru ar ddiwedd yr G19eg a dechrau'r G20fed a'u pwysigrwydd i ddatblygiad y genedl. Ond i fynd yn ôl i'r dechrau - roedd Helen yn un o dri o blant y Capten Jabez Rowlands, a'i wraig Martha. Cafodd ei dau frwad addysg dda ac aethant i'r weinidogaeth. Daeth un yn Ganon Cadeirlan Bangor ac aeth y llall yn genhadwr i Awstralia. Yn groes i arfer yr adeg honno, cafodd Helen addysg dda hefyd (o bosibl gyda help Robert Davies, perchennog llongau a Dyngarwr?) O Ysgol Ramadeg Biwmares, enillodd hi ysgoloriaeth i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, cafodd Radd Dosbarth Cyntaf mewn Ffrangeg yna ysgoloriaeth i Goleg Newnham, Caergrawnt. Ni chwblhaodd ei hamser yn Newnham a dychwelodd adref i feddwl beth i'w wneud nesaf. Aeth i ofyn cyngor y Parch. Thomas Charles Williams, Gweinidog Capel Mawr, pregethwr carismataidd a grymus. Bu'n dysgu Ffrangeg am ychydig ac yn 1913

fe'i penodwyd yn athrawes yn yr Ysgol Ganol i Ferched yn y Drenewydd lle cyfarfu â Gwilym Williams, cyd athro a bardd ifanc o Sir Gaerfyrddin. Roedd hi'n gwneud llawer o waith yn yr eglwys ac erbyn 1915 roedd hi wedi penderfynu ei chysegro ei hun i waith cenhadol. Ymunodd Gwilym â'r Ffiwsilwyr Cymreig Brenhinol yn fuan wedyn ac yn drist iawn, cafodd ei ladd yn Ffrainc ym mis Mai 1916. Ym mis Hydref 1916 hwyliodd Helen o Lerpwl i Calcutta ac yna ymlaen i Sylhet (map trosodd). Roedd yn daith beryglus iawn gan fod hyn ynghanol ymgyrch llongau tanfor yr Almaenwyr. Gwasanaethodd Helen am 10 mlynedd yn ardal Sylhet, bu'n dysgu yn Ysgol Goffa Williams a daeth yn Bennaeth arni yn 1918. Daeth yn rhugl mewn Bengaleg gan feistroli'r iaith lafar ac ysgrifenedig. Fe'i gwahoddwyd i fod yn bennaeth ar yr ysgol iaith yn Darjeeling (o dan nawdd Cyngor Cristnogol Bengal ac Assam) ac fe'i secondiwyd i Brifysgol Calcutta i astudio ar gyfer MA yn ieithoedd brodorol yr India. Ar seibiant yn 1930 fe gofrestrodd yn y Sorbonne i astudio am ddoethuriaeth ac ar argymhelliad arbennig ei Hathro, fe gyflwynodd ei thraethawd mewn blwyddyn ac ennill y radd 'Docteur de l'Universite de Paris'. Cynigiwyd Cadeiriau Benagleg iddi gan Brifysgolion ledled y byd ond dewisodd ddychwelyd i ddyddu, ac efengylu yn



Helen Rowlands gyda Gandhi, ar ei ymweliad â'r Ysgol yn Darjeeling. Llun hawlfraint trwy ganiatâd caredig Archifdy Ynys Môn.

Karimganj, Assam, gan dderbyn statws athro anrhydeddus yng ngholeg Llywodraeth India yno. Gan roi ei disgleirdeb academaidd naill ochr am funud, pa fath o berson oedd hi? Roedd hi'n mwynhau ysgrifennu ac yn cadw mewn cysylltiad â ffrindiau, a chyfrannu at y wasg, yn enwedig Y *Cenhadwr*, Y *Goleuad* a'i hadroddiadau i'r Genhadaeth Dramor. Mae'r rhain fwyaf o'r rhain mewn archif (gobeithio!) yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ond os oes copïau gan unrhyw un, byddai'r Gymdeithas Ddinesig yn falch iawn o glywed gennych. Byddai mor ddiddorol gallu edrych arnyn nhw'n fanwl gan eu bod yn ymdrin ag un o'r adegau mwyaf cythryblus yn hanes yr India - o adladd y Rhyfel Byd Cyntaf i'r Ail Ryfel Byd lle llwyddodd brwydrau dwys yn Kohima i atal symudiad y Japaneaid drwy Byrma, i Raniad India yn 1947. Roedd Karimganj reit ar y ffin a bu Helen yn dyst i ddigwyddiadau erchyll y cyfnod.

Roedd ei chynulleidfa a'r boblogaeth leol yn ymddiried ynnddi ac yn ei pharchu. Ar 15 Awst 1947 ar ddiwrnod cyntaf yr India Annibynnol fe'i gwahoddwyd gan yr awdurdodau newydd i fynychu seremoni i ryddhau'r carcharorion o garchar y dref. Nid oedd pob un o'r cenhadon yn cefnogi annibyniaeth ond roedd Helen yn cael ei hystyried yn gefnogol, yn Swarajist (credwr yn rhyddid yr eglwys a hunanlywodraeth) Roedd hi wedi cyfieithu ac wedi hyrwyddo gwaith Rabindranath Tagore, bardd cenedlaetholgar ac R Kanta Sen. Credir ei bod wedi adnabod Gandhi yn bersonol a galarodd gyda'r bobl eraill yn Karimganj pan gafodd ef ei ladd yn 1948. Roedd hi'n ddigon uchel ei pharch i gael ei gwahodd i ddarllen o'r Beibl, ochr yn ochr â chlerigwyr Hindŵ a Mwslim, i'r tyrfaoedd anferth a gasglodd i nodi ei farwolaeth.

Gan fod y Genhadaeth Dramor (Calfinaidd) yn meddwl llawer ohoni ynghyd â'r Weinyddiaeth Brydeinig - efallai y dylid ychwanegu diplomyddiaeth at ei sgiliau. Ysgrifennodd un Gweinyddwr, W.R.Owain-Jones OBE MSc, yn ei erthygl 'Cyfraniad y Cymry i weinyddiaeth India', a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Anrhydeddus y Cymrodorion fel a ganlyn, "Byddai bod yn India heb ymweld â'r genhadaeth Gymreig yn Assam a gogledd-ddwyrain India yn fethiant anfaddeuol i Gymro, yn enwedig un a fagwyd yn y ffydd Bresbyteraidd.....ar ddiwedd 1951 bŵm yn ymweld â Haflong fel gwestai Dr Helen Rowlands, un o'r cenhadon mwyaf adnabyddus ac annwyl yng ngogledd-ddwyrain India..... Tynnodd ei gwybodaeth o'r Fengaleg sylw a gwerthfawrogiad llenorion fel Syr Jagadish a'r Arglwyddes Bose...Ac eto roedd ei Chymraeg, iaith y Monwysion, mor berffaith a hardd i wrando arni ag yr oedd y diwrnod y gadawodd Ynys Môn. Ar y diwrnod hwnnw yn 1951 buom yn hel atgofion am yr Ynys a bron y gallwn deimlo awel y môr..."

Yn fwy diweddar ysgrifennodd Nabanipa Bhattacharjee amdani yn y *North East Review* (India), "Cyhoeddodd hefyd weithiau efengylaidd a pharhaodd yn ddi-ball i hyfforddi menywod gwledig tlawd i fod yn hunandibynnol. Credai Rowlands yn gryf fod annibyniaeth economaidd menywod yn gonglfaen i drefn gymdeithasol deg, cydradd a rhydd. Dim rhyfedd iddi freuddwydio a llafurio am hyn ei holl fywyd. Sefydlwyd Ysgol Uwchradd Goffa Rowlands yn 1986

er cof annwyl am Madam J.H.Rowlands. ei nod yw sicrhau datblygiad crwn ei myfyrwyr h.y. mewn gweithgareddau academaidd ac allgyrsiol. Caiff ei rhedeg gan fwrdd Synod Mizo yn Mizoram. Ysgol genhadol yw hon yn dilyn methodoleg Bresbyteraidd Cristnogaeth Brotestannaidd..." Yn Karimganj fe sefydlodd hi 'Dipti Nibash' - Cartref Goleuni - cartrefi i weddwon a phlant amddifad yr ardal - lle y gallent gael addysg a sgiliau, fel nyddu, i allu gwneud bywoliaeth.



Bryniau Casia – o amgylch tref Shillong. Yr afon yw'r Brahmaputra, sy'n arwain at Gacutta. Mae Myanmawr (Byrma) a China i'r Dwyrain a'r Gogledd.

Bu farw Jane Helen Rowlands yn sydyn yn Karimganj ar 12 Chwefror 1955 ac mae ei bedd yno o flaen y capel. Enwyd y llyfrgell yng ngholeg Karimganj y 'Rowlands Hall' er cof amdani. Daeth miloedd lawer i'w hangladd i dalu teyrnged i 'ferch ostyngedig' a benderfynodd wasanaethu eraill a helpu'r gwan a'r tlawd.



Llun: o wefan Ysgol Uwchradd Goffa Helen Rowlands

Ysgrifennwyd llawer amdani ac mae myfyrwyr Doethuriaeth yn India yn dal i ysgrifennu amdani. Bydd Llyfryddiaeth lawn ar ein Gwefan. Os oes gennych unrhyw atgofion am y genhades amryddawn hon, da chi, cysylltwch â ni.

Liz Moyle